Ni Bia' Addysg Uwch.

Adeiladu aelodaeth

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Adeiladu aelodaeth

Ni Bia' Addysg yw ein hymgyrch i ddiogelu dyfodol addysgôl-16.

Mae'r ymgyrch yn ymwneud ag adeiladu gwell dyfodol: un lle caiff addysg ei hariannu'n briodol, lle mae staff yn cael sicrwydd ac yn cael eu gwerthfawrogi, lle gall myfyrwyr gael addysg heb gael eu gwthio i fwy o ddyled, a lle mae prifysgolion yn atebol i'r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

I sicrhau'edyfodol hwnnw, mae angen undeb cryf sydd â llawer o aelodau.

Mae hynny'n golygu recriwtio llawer mwy o gydweithwyr nad ydynt yn aelodau eto, cryfhau ein canghennau, datblygu ymgyrchwyr newydd a meithrin y cydberthnasau sydd eu hangen arnom i ymgyrchu'n effeithiol yn ein gweithleoedd a'n cymunedau.

Nid oes angen i chi fod yn ymgyrchydd neu'n drefnydd profiadol. Gall pob un ohonomgyfrannu at y gwaith yma.

Nid oes angen i chi allu ateb pob cwestiwn.

Mae angen i chi fod yn barod i siarad â chydweithwyr, gwrando ar yr hyn sy'n bwysig iddynt, ac ymroi i adeiladu undeb sy'n adlewyrchu hyn. Yn bwysicach na dim, rhaid i chi fod yn barod i ofyn y cwestiwn pwysicaf: "Wnei di ymuno a'r undeb?".

Dull syml

1. Siarad â phobl.

2. Gwrando.

3. Cysylltu eu pryderon â gweithredu ar y cyd.

4. Gofyn iddynt ymuno.

5. Rhoi rhywbeth iddynt ei wneud.

6. Cymryd camau dilynol.

A pharhau i wneud hyn. Mae'n ymarfer cylchol.

Ein hymrwymiad i chi

Fel rhan o adeiladu grymyn y gweithle, bydd UCU yn llunio set newydd o ddeunyddiau recriwtio i gefnogi eich gwaith ar lawr gwlad. Mae rhai o'r rhain eisoes ar gael ar wefan ein hymgyrch.

Byddwn yn lansio pecyn cymorth a chyfathrebu newydd ar gyfer cynrychiolwyr UCU, gan gynnwys adnoddau ymarferol fel laniardiau ar gyfer cynrychiolwyr UCU a bathodynnau sydd â chod QR i ymuno ag UCU er mwyn cynyddu gweledigaeth yn y gweithle.

Bydd yr adnoddau hyn yn cael eu rhannu'n raddol â changhennau dros yr wythnosau nesaf.

Pam mae recriwtio yn bwysig?

Mae undeb cryf yn dechrau gyda phobl.

Po fwyaf o gydweithwyr sy'n aelodau o yn UCU, y mwyaf yw ein gallu i ddeall beth sy'n digwydd ar draws ein gweithleoedd, cynrychioli staff ar y cyd, ymgyrchu'n effeithiol a datblygu'r arweinwyr gweithle sydd eu hangen arnom.

Felly nid yw recriwtio yn rhywbeth ar wahân i drefnu.

Recriwtio yw trefnu.

Mae pob aelod newydd yn cryfhau ein llais cyfunol.

Mae pob sgwrs â chydweithiwr hefyd yn ein helpu i ddeall ein gweithle: yr hyn sydd o bwys i bobl, ble mae problemau'n datblygu, ar bwy mae pobl yn gwrando a ble mae angen i ni adeiladu trefniadaeth.

A gallai pob aelod newydd ddod yn gyswllt, yn ymgyrchydd neu'n gynrychiolydd nesaf y gweithle.

Ac mae safbwynt newydd yr un mor bwysig ac yn cael ei groesawu gymaint â safbwynt cynrychiolydd hirsefydlog. **Yn aml, mae aelodau newydd yn gweld yr hyn na all y rhai ohonom sydd wedi bod o gwmpas ers tro ei weld – gall diffyg profiad fod yn werthfawr iawn mewn gwirionedd!**

Ni Bia' Addysg.

Mae'r ymgyrch yn rhoi rheswm i ni ddechrau sgyrsiau.

Ar draws addysg uwch, mae cydweithwyr yn profi canlyniadau system sydd dan bwysau parhaus.

Siaradwch â chydweithwyr am yr hyn y maent yn ei weld a'i brofi.

Beth sy'n digwydd i'w llwyth gwaith?

Beth sy'n digwydd i sicrwydd eu swyddi?

Beth sy'n digwydd i'w myfyrwyr?

Beth sy'n digwydd i'w sefydliad yn eu barn nhw?

Beth y byddent yn ei newid?

Mae'r ymgyrch yn cynnig ffordd o gysylltu'r sgyrsiau hynny â gweithredu ar y cyd.

Mae UCU yn ymgyrchu dros y canlynol:

- Buddsoddiad cynaliadwy mewn addysg uwch.
- Diogelwch ar gyfer swyddi, cyflogau a phensiynau.
- Model ariannu hirdymor wedi'i drawsnewid.
- Dull tecach o ymdrin â staff a myfyrwyr rhyngwladol.
- Trefniadau cryfach ar gyfer llywodraethu'r sector.

Mae'r ymgyrch hefyd yn ymwneud ag adeiladu'r sefydliad sy'n gallu cyflawni'r nodau hyn.

Po gryfaf yr ydym, y mwyaf y gallwn ei wneud gyda'n gilydd.

Po fwyaf ohonom sydd, y mwyaf y gallwn ei fynnu a'i ennill.

Sgyrsiau recriwtio

Nid oes angen sgript arnoch chi.

Ond gall cael strwythur syml wneud sgyrsiau'n haws.

Cyflwyno

Dechreuwch yn naturiol.

"Helo, [enw] ydw i. Rwy'n aelod o UCU ac rwy'n siarad â chydweithwyr am yr hyn sy'n digwydd mewn addysg uwch a'n hymgyrch *Ni Bia' Addysg*. Oes gennych chi ychydig funudau?"

Os ydych chi eisoes yn adnabod y person, dechreuwch gyda'r sgwrs y byddech chi yn ei chael fel arfer.

Y peth pwysig yw esbonio pwy ydych chi a pham rydych chi'n siarad â'r unigolyn.

Nodi materion

Gofynnwch gwestiynau penagored.

"Sut mae pethau'n mynd yn eich maes chi?"

"Beth yw'r broblem fwyaf sy'n wynebu staff yma yn eich barn chi?"

"Pe gallech newid un peth am weithio yma, beth fyddai hynny?"

"Sut mae newidiadau yma'n effeithio ar eich myfyrwyr?"

Yna ***gwrandewch***.

Mae'r sgwrs am yr unigolyn, nid chi

Mae angen i chi ddeall beth sydd o bwys i'r person o'ch blaen.

Ceisiwch ddeall ei bryderon a'i amheuon.

Cysylltu

Cysylltwch yr hyn y mae wedi'i ddweud wrthych chi â gweithredu ar y cyd.

"Mae hynny'n rhywbeth rydym wedi bod yn siarad amdano yn UCU hefyd."

"Dyna un o'r rhesymau pam mae'n bwysigcydweithio i ddatrys problemau."

"Mae UCU yn ymgyrchu ar rai o'r materion hynny drwy *Ni Bia' Addysg*."

Peidiwch â rhoi pob neges ymgyrch i rywun. Defnyddiwch y neges sy'n cysylltu â'r hyn y mae wedi'i ddweud wrthych chi.

Gofyn y cwestiwn

Dyma'r rhan y mae pobl yn ei hosgoi'n aml.

Gofynnwch yn uniongyrchol:

"Hoffech chi ymuno ag UCU?"

Yna stopiwch siarad.

Rhowch amser i'r unigolyn ateb.

Os oes diddordeb ganddynt, helpwch yr unigolyn i ymuno.

Os yw'n ansicr:

"Beth sy'n eich dal yn ôl?"

Gwrandewch ar yr ateb.

Darbwyllo

Mae'n bosibl y bydd gan bobl bryderon ynglŷn ag ymuno. Efallai eu bod wedi bod yn aelod o'r blaen, hyd yn oed, ac wedi gadael.

Efallai y byddant yn pendroni am gost, amser, cynrychiolaeth neu'r hyn sydd ynghlwm â bod yn aelod.

Neu efallai y byddant yn anghytuno â phenderfyniadau blaenorol y mae'r undeb wedi'u gwneud.

Peidiwch â diystyru eu pryderon. Gofynnwch gwestiynau.

"Beth sy'n eich poeni'n benodol ynglŷn ag ymuno?"

Atebwch yn onest.

Os nad ydych chi'n gwybod rhywbeth, dywedwch hynny a dewch o hyd i'r ateb.

Gweithredu

Ymuno yw'r dechrau, nid y diwedd.

Rhowch gam nesaf i unrhyw aelodau newydd.

Dylech eu gwahodd i wneud y canlynol:

- Cwrdd â'u cynrychiolydd.
- Mynd i un o gyfarfodydd y gangen.
- Dod i un o ddigwyddiadau *Ni Bia' Addysg*.
- Helpu gyda gweithgarwch ymgyrchu.
- Siarad â chydweithiwr arall.
- Ymuno â'r grŵp trefnu lleol.

Gofynnwch:

"Gyda beth yr hoffech chi helpu?"

Y sgwrs yn gryno

CYFLWYNO
Pwy ydych chi a pham rydych chi'n siarad?
↓
ADNABOD BLAENORIAETHAU
Beth sy'n bwysig i'r unigolyn?
↓
CYSYLLTU
Sut mae gweithredu ar y cyd yn gysylltiedig â'r pryderon hynny?
↓
GOFYN Y CWESTIWN
A fydd yr unigolyn yn ymuno?
↓
DARBWYLLO
Pa bryderon neu gwestiynau sydd gan yr unigolyn?
↓
GWEITHREDU
Beth y bydd yn ei wneud nesaf?

Gwrando yn gyntaf

Mae recriwtio yn gweithio orau pan fydd ar ffurf sgwrs yn hytrach na' phregeth. Dylech osgoi rhoi araith hir i rywun cyn clywed barn yr unigolyn.

Dylech osgoi jargon.

Peidiwch a meddwl eich bod eisoes yn gwybod beth sy'n bwysig i'r unigolyn.

Peidiwch a cheiso ennill y ddadl.

Yn hytrach, dylech ddilyn y drefn ganlynol:

- Gofyn.
- Gwrando.
- Deall.
- Cysylltu.
- Gofyn.

Ar ddiwedd sgwrs recriwtio dda, dylech wybod mwy am eich cydweithiwr a'ch gweithle nag yr oeddech o'r blaen.

Cwestiynau sy'n agor sgyrsiau

Am waith

- Sut beth yw gweithio yma ar hyn o bryd?
- Beth yw'r pwysau mwyaf ar staff?
- Beth fyddech chi'n ei newid pe gallech chi?
- Beth sy'n newid yn eich maes yn eich barn chi?

Am fyfyrwyr

- Sut mae newidiadau presennol yn effeithio ar fyfyrwyr?
- Beth sy'n eich poeni fwyaf am brofiad y myfyriwr?
- A yw myfyrwyr yn cael yr addysg a'r gefnogaeth y maent yn eu haeddu?

Am y dyfodol

- Sut dylai addysg uwch edrych yn eich barn chi?
- Beth fyddech chi'n ei ddiogelu?
- Beth fyddech chi'n ei newid?

Am weithredu ar y cyd

- A all staff newid hyn gyda'i gilydd yn eich barn chi?
- Beth fyddai'n annog mwy o gydweithwyr i gymryd rhan?
- Â phwy arall y dylem siarad?

Cwestiynau cyffredin

“Pam y dylwn i ymuno?”
Dechreuwch gyda’r hyn mae’r unigolyn wedi’i ddweud wrthych.

“Felly llwyth gwaith yw un o’ch pryderon mwyaf? Un rheswm y mae pobl yn ymuno ag UCU yw fel y gallant weithio ar y cyd â chydweithwyr ar faterion fel hynny.”

Yna esboniwch fanteision perthnasol aelodaeth yn gywir.

Gofynnwch: “A fyddech chi’n fodlon ymuno a helpu i gryfhau’r llais y gweithlu?”

“Rwy’n cael y manteision beth bynnag.”
Gallwch gydnabod y gall gweithredu ar y cyd wella pethau i bawb.

Yna esboniwch fod gallu’r undeb i negodi, cynrychioli staff ac ymgyrchu yn dibynnu ar bobl yn dewis trefnu gyda’i gilydd.

“Os yw’r mater hwn yn bwysig i chi, a fyddech chi’n fodlon ymuno?”

“Does gen i ddim amser.”
Nid yw ymuno yn golygu dod yn gynrychiolydd na mynd i bob cyfarfod.

“Nid oes rhaid i chi ymgymryd â rôl fawr. Ymuno yw’r cam cyntaf, a gallwch benderfynu i ba raddau rydych am gymryd rhan.”

Cynigiwch un weithred fach.

“Mae’n rhy ddrud.”
Nodwch fod cyfraddau tanysgrifio yn gynyddol. Mae aelodau sy’n ennill llai yn talu llai i ymuno.

Gofynnwch a yw’n ymwybodol y gall hawlio rhyddhad treth ar danysgrifiadau undeb?

“Does gen i ddim diddordeb mewn gwleidyddiaeth.”
Dewch â’r sgwrs yn ôl i’r gweithle.

“Mae hynny’n iawn. Beth yw’r broblem fwyaf sy’n effeithio arnoch chi yn y gwaith?”

“Dwi ddim yn meddwl y gall undebau newid unrhyw beth.”
Peidiwch â dadlau ar unwaith.

Gofynnwch: “Beth sy’n gwneud i chi deimlo felly?”

Gwrandewch.

Yna defnyddiwch enghraifft berthnasol o’ch gweithle neu’ch sector.

Byddwch yn onest ynglŷn â’r hyn sydd wedi cael ei gyflawni a’r hyn sydd heb ei gyflawni.

“Rydw i eisoes yn aelod o undeb arall.”
Gofynnwch: “Ym mha undeb ydych chi?”

“Beth wnaeth i chi ymuno?”

Darganfyddwch pa gynrychiolaeth sydd gan yr unigolyn ar hyn o bryd ac esboniwch rôl UCU yn gywir lle y bo’n berthnasol.

Gofynnwch a yw’n ymwybodol o gynlluniau aelodaeth ddeuol UCU.

Peidiwch â difrïo undeb arall.

“Mae angen i mi feddwl am y peth.”
Parchwch hynny.

Gofynnwch: “Wrth gwrs. Am beth hoffech chi feddwl?”

Cytunwch ar bryd y byddwch yn cysylltu eto.

Peidiwch â gadael sgwrs addawol heb gam nesaf.

Mae recriwtio yn gyfrifoldeb i bawb

Nid oes rhaid i chi fod yn swyddog cangen i recriwtio.

Dechreuwch â cham bach.

Fi + 1

Gofynnwch i bob aelod:

“Pwy yw un cydweithiwr y gallech chi siarad ag ef am ymuno ag UCU?”

Yna gofynnwch y cwestiwn.

Unwaith y bydd hynny’n dod yn drefn arferol, adeiladwch o’r pwynt hwnnw.

Fi + 5

Gofynnwch i aelodau gael pum sgwrs recriwtio.

Fi + 10

Rhowch restr o ddeg cydweithiwr i wirfoddolwyr gysylltu â nhw a chefnogwch nhw i gael y sgyrsiau.

Mae’r nifer yn llai pwysig na’r egwyddor.

Adeiladwch ddiwylliant lle mae recriwtio yn rhan arferol o fod yn aelod gweithgar o UCU.

Adnabod eich gweithle

Ni allwch drefnu pobl nad ydych yn eu hadnabod.

Defnyddiwch waith yr ymgyrch i ddeall eich gweithle.

Ewch ati i fapio:

- Adrannau a chyfadrannau.
- Gwasanaethau proffesiynol.
- Timau addysgu.
- Timau ymchwil.
- Staff sy'n cael eu talu fesul awr a staff dros dro.
- Ymchwilwyr ôl-raddedig.
- Staff gyrfa gynnar.
- Staff cyfnod penodol.
- Campysau ac is-safleoedd.
- Meysydd sydd â nifer mawr a nifer bach o aelodau.
- Meysydd sydd â threfniadaeth gref a gwan.

Yna gofynnwch:

Ble rydym yn gryf?

Ble rydym yn wan?

Pwy sydd ddim yn aelod?

Pwy sy'n siarad â phawb?

At bwy mae cydweithwyr yn mynd i gael cyngor?

Pwy allai ddod yn drefnydd?

Peidiwch â chwilio am bobl sydd â swyddi ffurfiol yn unig.

Rhai o'r bobl bwysicaf mewn gweithle yw'r rhai y mae cydweithwyr yn ymddiried ynddynt yn naturiol ac yn gwrando arnynt. Rydym yn eu galw'n 'arweinwyr organig' ac mae eu hadnabod yn bwysig iawn. Felly hefyd mae eu recriwtio i'r undeb a'u cynnwys yn ein hymgyrchoedd.

Adeiladu'r grŵp trefnu

Mae recriwtio yn dod yn fwy pwerus pan fydd pobl yn gweithio gyda'i gilydd.

Dewch â'r bobl ganlynol ynghyd:

- Swyddogion cangen.
- Cynrychiolwyr.
- Aelodau cyffredin.
- Aelodau newydd.
- Cydweithwyr o adrannau gwahanol.
- Staff academaidd.
- Staff gwasanaethau proffesiynol.
- Ymchwilwyr a staff gyrfa gynnar.
- Pobl sydd â chysylltiadau cymunedol cryf.
- Pobl sy'n mwynhau siarad â chydweithwyr.
- Pobl a all drefnu digwyddiadau a gweithgareddau.
- Pobl a all gyfathrebu ar-lein.

Amlinellu ein cysylltiadau

Mae pob un o'n aelodau yn weithiwr, ond maent yn llawer mwy na hynny hefyd.

Rydym hefyd yn rhan o deuluoedd, cymunedau, clybiau, sefydliadau a rhwydweithiau.

Mae llawlyfr *Ni Bia' Addysg* yn nodi'r dull o fapio gweithwyr cyfan fel ffordd o ddeall y cydberthnasau hynny.

Gofynnwch i aelodau:

Pwy ydych chi'n ei adnabod?

Ffrindiau
Teulu
Ysgolion lleol
Grwpiau ffydd a mannau addoli
Timau chwaraeon
Undebau eraill
Grwpiau gweithredu
Pleidiau gwleidyddol
Grwpiau diddordeb
Busnesau lleol
Grwpiau preswylwyr neu gymdogaethau
Sefydliadau cymunedol

Gall y cydberthnasau hyn ein helpu i ddeall ein cymunedau, dod o hyd i gynghreiriaid a chysylltu addysg uwch â'r cyhoedd ehangach.

O recriwtio i drefnu

Ni ddylai aelodau newydd ddiflannu i'r gronfa ddata o aelodau.

Croesawu

Cysylltwch â nhw.

Cyflwynwch nhw i'w cangen.

Dywedwch wrthynt pwy yw eu cynrychiolydd.

Gofynnwch beth ddaeth â nhw i UCU.

Cynnwys

Gallwch eu gwahodd i weithgaredd neu ddigwyddiad cymdeithasol.

Rhowch dasg benodoliddynt ei wneud.

Holwch am eu diddordebau.

Datblygu

Dysgwch beth yw eu cryfderau.

Darganfyddwch pwy maent yn ei adnabod.

Darganfyddwch pa faterion sy'n bwysig iddynt.

Cynigiwch gyfleoedd i ddysgu a threfnu.

Arwain

Cefnogwch aelodau sydd am gymryd mwy o gyfrifoldeb.

Helpwch nhw i recriwtio cydweithwyr.

Helpwch nhw i drefnu sgyrsiau.

Helpwch nhw i ddod yn arweinwyr yn y gweithle.

Recriwtio drwy weithgarwch ymgyrchu

Gall pob gweithgaredd ymgyrchu fod yn gyfle i recriwtio hefyd.

Stondinau ymgyrchu

Dewch â:

- Deunyddiau'r ymgyrch.
- Gwybodaeth am ymuno.
- Cod QR i ymuno.
- Dull cofrestru.
- Manylion digwyddiadau sydd ar ddod.
- Pobl sy'n barod i gael sgyrsiau.

Peidiwch â rhannu taflenni yn unig.

Siaradwch â phobl.

Ymweliadau ag adrannau

Ewch mewn parau.

Ymwelwch â chydweithwyr ble maent yn gweithio.

Gofynnwch am y materion sy'n effeithio arnynt.

Cymerwch gamau dilynol ar ôl hynny.

Croesawu staff newydd

Gwnewch UCU yn rhan o'r croeso i bob cydweithiwr newydd.

Rhowch y canlynol iddynt:

- Croeso.
- Cyflwyniad i UCU.
- Manylion y cynrychiolydd lleol.
- Gwybodaeth am ymuno.
- Gwahoddiad i gymryd rhan.

Cyfarfodydd ymgyrchu agored

Rhowch wahoddiad i aelodau a'r rhai nad ydynt yn aelodau.

Gwnewch y cyfarfod yn berthnasol i fater sy'n bwysig i bobl.

Rhowch ffordd i bawb gymryd rhan.

Dewch â'r cyfarfod i ben gyda chais clir.

Ymuno ag UCU.
neu
Ddod â chydweithiwr y tro nesaf.
neu
Helpu i drefnu'r gweithgaredd nesaf.

Mis o recriwtio

Dechrau drwy fapio

Nodwch gydweithwyr nad ydynt yn aelodau eto.

Nodwch aelodau a allai recriwtio.

Nodwch bobl a allai helpu i drefnu.

Cynnal sgyrsiau

Neilltuwch amser ar gyfer sgyrsiau un-i-un.

Peidiwch â cheisio gwneud popeth ar unwaith.

Mae deg sgwrs dda yn fwy defnyddiol na chant o daflenni nad oes neb yn eu trafod.

Gofyn y cwestiwn

Gofynnwch i bobl ymuno.

Gofynnwch i aelodau presennol recriwtio.

Gofynnwch i aelodau newydd gymryd y cam cyntaf.

Camau dilynol

Croesawch aelodau newydd.

Ewch yn ôl at bobl a oedd am gael amser i feddwl.

Gofynnwch beth ddysgoch chi.

Nodwch drefnwyr newydd.

Yna gwnewch y cyfan eto.


UCU
OFFICIAL
PICKET
SOAS
College Buildings


STUDENT
SOLIDARITY
WITH THE
STRIKE

Rhestr wirio ar gyfer recriwtio

Cyn

- ☐ Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod pa ran o'r gweithle rydych chi'n ei drefnu.
- ☐ Nodwch recriwtiaid posibl.
- ☐ Nodwch aelodau a all helpu.
- ☐ Sicrhewch fod gwybodaeth am ymuno yn barod gennych.
- ☐ Sicrhewch fod deunyddiau'r ymgyrch ar gael.
- ☐ Gwnewch yn siŵr bod gwirfoddolwyr yn gyfarwydd â strwythur y sgwrs.
- ☐ Cytunwch pwy fydd yn cymryd camau dilynol.

Yn ystod

- ☐ Cyflwynwch eich hun.
- ☐ Gofynnwch gwestiynau.
- ☐ Gwrandewch.
- ☐ Nodwch yr hyn sy'n bwysig i'r cydweithiwr.
- ☐ Cysylltwch ei bryderon â gweithredu ar y cyd.
- ☐ Gofynnwch iddo ymuno.
- ☐ Atebwch gwestiynau'n onest.
- ☐ Cytunwch ar y cam nesaf.

Ar ôl

- ☐ Cymerwch gamau dilynol.
- ☐ Croesawch aelodau newydd.
- ☐ Gwahoddwch nhw i un o weithgareddau'r gangen.
- ☐ Gofynnwch i aelodau newydd pwy arall y gallent siarad â nhw.
- ☐ Nodwch drefnwyr posibl.
- ☐ Adolygwch yr hyn rydych wedi'i ddysgu.

Pum peth i'w gofio

1. Gofyn

Ni all pobl ymuno os na fydd neb yn gofyn iddynt.

2. Gwrando

Mae'r sgwrs yn dechrau gyda'r cydweithiwr.

3. Bod yn onest

Nid oes angen i chi esgus bod gan yr undebateb i bopeth.

4. Gwneud pethau'n hawdd

Sicrhewch fod gwybodaeth am ymuno yn barod gennych.

5. Cymryd camau dilynol

Adeiladwch berthynas gyda'r darpar aelod.

Dechrau'r sgwrs

Os ydych chi'n nerfus, dechreuwch yma:

"Helo, [enw] ydw i. Rwy'n aelod o UCU. Rwy'n siarad â chydweithwyr am yr hyn sy'n digwydd mewn addysg uwch a beth y gallwn ei wneud ar y cyd. Alla i ofyn beth yw'r broblem fwyaf sy'n effeithio ar staff yma ar hyn o bryd yn eich barn chi?"

Yna gwrandewch.

Pan fydd yr unigolyn wedi gorffen:

"Mae hynny'n ddiddorol iawn. Mae UCU yn mynd ati i drefnu mewn perthynas â rhai o'r materion hynny drwy ymgyrch *Ni Bia' Addysg*. A fyddai diddordeb gennych mewn ymuno â ni?"

Nid oes angen araith berffaith arnoch. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw dechrau'r sgwrs.

Cysylltu

Ni Bia' Addysg.

Adeiladu'r undeb. Diogelu ein haddysg.

UCU – Undeb y Prifysgolion a'r Colegau
educationitsours.org.uk

I gael cymorth ymgyrchu:
campaigns@ucu.org.uk

I gael cymorth gyda lobïo ASau neu gydlynu cyfarfodydd gydag ASau:
politics@ucu.org.uk

Ni Bia' Addysg

University and College Union

ucu.campaigns ucunion ucu ucu.org.uk educationitsours.org.uk

Cynhyrchwyd gan Undeb y Prifysgolion a'r Colegau, Carlow Street, London NW1 7LH